**<u>Cyfarfod Grŵp y Trydydd Sector gyda Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth</u>**

**Nodyn am y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Gorffennaf 2020**

**Yn bresennol**

| | **Sefydliad** |
|---|---|
| Ben Lloyd (BL) | CGGC **(CADEIRYDD)** |
| Alun Jones (AJ) | CGGC |
| Clare Sain ley Berry (CSLB) | Cynnal Cymru |
| Gurmit Singh Randhawa (GSR) | Cyngor Rhyng-ffydd Cymru |
| Lynne Hill (LH) | Plant yng Nghymru |
| Peter Williams (PW) | Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru |
| San Leonard (SL) | Cwmnïau Cymdeithasol Cymru |
| Ben Lloyd (BL) | CGGC |
| Fiona Harris (FH) | CGGC |
| Derek Walker (DW) | Canolfan Cydweithredol Cymru |
| | Y Gymdeithas Cludiant Cymunedol |
| Christine Boston (CB) | Y Gymdeithas Drafnidiaeth |
| Peter Jones (PJ) | Cŵn Tywys Cymru |
| Rocio Cifuentes (RC) | Y Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig |
| Jess McQuade (JMcQ) | Cyswllt Amgylchedd Cymru |
| Hazel Lloyd Lubran (HLL) | Cefnogi Trydydd Sector Cymru |
| Clare Rudall (CR) | Busnes yn y Gymuned Cymru |
| | |
| **Llywodraeth Cymru** | |
| Lee Waters SM (y Dirprwy Weinidog) | Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth |
| Chris Buchan (CBuchan) | LlC |
| Julian Carpanini (JC) | LlC |
| Rhiannon Perkins (RP) | LlC |
| | |
| **Ymddiheuriadau** | |
| Ann Marie Rogan | YMCA Abertawe |

Cadeirydd: Ben Lloyd (BL)

1. Dywedodd BL fod diddordeb mawr yn y rhag-gyfarfod yn Eitem 3 ar yr Agenda: Ar Drywydd Adferiad. Byddai Eitemau 1 a 2 ar yr Agenda’n cael eu cyfuno er mwyn cynnal trafodaeth lawnach ar Eitem 3 ar yr Agenda. Byddai Eitemau 1 a 2 yn cael eu rhannu’n effaith ar y sector ac effaith ar drafnidiaeth.
2. Cyflwyniadau o amgylch y bwrdd

## <u>Eitemau 1 a 2 ar yr Agenda: Effaith ar y trydydd sector ac ar y sector mentrau cymdeithasol</u>

Roedd **PW** yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru (LlC) wedi ymateb mor gyflym i'r argyfwng COVID a'i bod wedi cynnig amryfal fathau o gymorth. Roedd llawer o sefydliadau yn y trydydd sector ac yn y sector mentrau cymdeithasol yn pryderu am yr effaith ar eu rhanddeiliaid, a oedd bellach yn canolbwyntio ar ymadfer. Rhoddodd PW enghreifftiau o'r pryderon hynny. Roedd gan lawer o sefydliadau amryfal asedau y byddai angen iddynt barhau i greu refeniw. Roedd llawer o sefydliadau wrthi hefyd yn Trosglwyddo Asedau Cymunedol a byddai unrhyw gynnydd mewn costau adeiladu neu newidiadau yn y diwydiant adeiladu yn effeithio ar y sefydliadau hynny.

Tynnodd **HLL** sylw at wersi a ddysgwyd oddi wrth sefydliadau sefydledig ac ansefydledig yn ystod yr argyfwng. Roedd systemau talu electronig wedi bod yn rhwystr i nifer o sefydliadau. Roedd Cefnogi Trydydd Sector Cymru wrthi'n gwneud darn o waith a oedd yn edrych ar y gwersi a ddysgwyd. Roedd adeiladau'r sefydliadau'n destun pryder: gallai adeiladau fod yn rhy fach neu gallai'r gost o'u haddasu fod yn rhy uchel i alluogi pobl i ddychwelyd i'r gwaith yn ddiogel. Gallai cost cynnal a chadw adeiladau ac ansicrwydd am ffrydiau creu incwm arwain at adeiladau gwag.

Roedd yr argyfwng wedi cael effaith ar y sector gofal plant. Roedd cynaliadwyedd gwasanaethau'n fater a oedd yn peri pryder i lawer cyn yr argyfwng COVID, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Roedd rhai awdurdodau lleol wedi ymateb yn dda ac wedi bod yn gefnogol iawn ond nid oedd cysondeb ar draws yr awdurdodau lleol o ran y cymorth a oedd ar gael. Cynigiodd HLL ddarparu adroddiad ar wersi a ddysgwyd mewn perthynas â rhoi grantiau cymorth busnes i'r sector gofal plant.

Dywedodd **CR** wrth y Dirprwy Weinidog fod rhwydwaith cenedlaethol ymateb i fusnesau wedi cael ei sefydlu er mwyn cysylltu sefydliadau yn y trydydd sector, y sector cymdeithasol a'r sector mentrau cymdeithasol â busnesau. Cafodd 1,700 o gysylltiadau eu gwneud, a bu busnesau'n cynnig cymorth yn amrywio o gymorth technegol, bwyd, mentora a gwaith pro bono, gan ddangos bod y sector yn gallu cydweithio.

Dywedodd y **Dirprwy Weinidog** fod y Cwnsler Cyffredinol yn cynorthwyo'r Prif Weinidog drwy arwain ar yr adferiad ar ran LlC. Ar ôl buddsoddi mewn ysbytai maes, cyfarpar diogelu personol ac ymyriadau eraill sy'n gysylltiedig â COVID, roedd sefyllfa ariannol LlC yn ofnadwy ac roedd pob sector yn wynebu caledi. Roedd y 3ydd sector ar feddwl LlC. Ni wyddai'r Dirprwy Weinidog a fyddai LlC yn gallu cynnal yr un lefel o gymorth ond byddai'n gwneud ei gorau i liniaru'r effeithiau ar y sector.

Roedd y Dirprwy Weinidog yn cydnabod y pwynt a wnaed gan HLL ynglŷn ag adeiladau ac y byddai'n rhaid i'r sector addasu. Y Dirprwy Weinidog oedd yn arwain yr adolygiad o weithio gartref ar ran LlC. Roedd ystadegau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cadarnhau bod 40% o weithwyr wedi bod yn gweithio gartref ym mis Mai. Byddai'r Dirprwy Weinidog a'r Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol yn gwneud cyhoeddiad yr wythnos ganlynol am drawsnewid trefi.

Roedd LlC wrthi'n adolygu'r rheolau cadw pellter cymdeithasol sy'n effeithio ar ofal plant ac ar drafnidiaeth gyhoeddus, gan gofio y gallem weld ail don yn yr hydref.

Roedd y Dirprwy Weinidog yn croesawu'r adolygiad o dechnoleg ddigidol yn y 3ydd sector a chadarnhaodd y byddai Prif Swyddog Digidol newydd yn cael ei benodi cyn hir.

*Trafnidiaeth*

Dywedodd **CB** fod gostyngiad mawr yn nifer y teithwyr ar drafnidiaeth gyhoeddus a bod darparwyr trafnidiaeth gymunedol yn addasu gwasanaethau. Roedd llawer o ddarparwyr trafnidiaeth gymunedol yn cael llai o gyfleoedd i greu incwm, e.e. drwy wasanaethau teithio ychwanegol i grwpiau.

Dywedodd CB fod newidiadau i reoliadau a chanllawiau teithio yn arwain at fwy o anghydraddoldeb o ran y gallu i deithio. Roedd y canllawiau'n dweud y dylai pobl osgoi trafnidiaeth gyhoeddus, oni bai eu bod yn weithwyr allweddol, a defnyddio'u cerbydau eu hunain yn lle hynny. Roedd y bobl hynny sydd heb eu cerbydau eu hunain ac sy'n dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus yn llai abl i deithio. Gofynnodd CB a fyddai'r negeseuon ynglŷn ag osgoi trafnidiaeth gyhoeddus yn newid?

Dywedodd **PJ** fod gan bobl â nodweddion gwarchodedig ac anableddau bryderon eisoes o ran eu gallu i deithio. Cafodd y mater hwnnw ei godi gyda'r Dirprwy Weinidog yn ddiweddar ac roedd ef wedi ymateb. Roedd anghysonderau yn y gwasanaethau a gynigir gan ddarparwyr bysiau. Roedd y cyfathrebu gyda swyddogion LlC wedi bod yn dda ac roedd swyddogion wedi bod yn barod eu cymorth.

Dywedodd **RC** fod y ffaith bod gyrwyr bysiau'n gwrthod derbyn arian parod yn cael effaith enfawr ar geiswyr lloches am nad ydynt yn gallu cael cardiau banc. Roedd hon yn un arall o'r effeithiau yr oedd COVID-19 yn eu cael ar bobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.

Ymatebodd y **Dirprwy Weinidog** drwy ddweud bod yr allgáu ariannol sy'n wynebu ceiswyr lloches yn y cyd-destun hwn yn ddiddorol, a gofynnodd i RC a oedd ganddi farn am hynny. Awgrymodd **RC** y byddai pasys bws yn opsiwn da oherwydd mai nifer bach o geiswyr lloches sydd yng Nghymru ac oherwydd mai ychydig iawn o incwm sydd ganddynt.

**GWEITHREDU – JC i drafod gyda swyddogion y posibilrwydd o roi pasys bws i geiswyr lloches.**

Nododd y Dirprwy Weinidog fod CB wedi gwneud pwynt da am dlodi ac allgáu yng nghyd-destun trafnidiaeth. Roedd paradocs yn hynny o beth gan fod polisïau LlC yn rhoi blaenoriaeth i deithio llesol, yr argyfwng hinsawdd a thrafnidiaeth gyhoeddus, yn hytrach na ffyrdd. Roedd LlC eisoes yn rhoi cymhorthdal sylweddol i ddarparwyr bysiau. Byddai mwy o alw am wasanaethau bysiau pan fyddai disgyblion yn mynd yn ôl i'r ysgol yn llawnamser ym mis Medi.

## Eitem 3 ar yr Agenda: Ar Drywydd Adferiad

Roedd DW yn croesawu cefnogaeth y Dirprwy Weinidog i awydd y trydydd sector i ddefnyddio technoleg ddigidol, a gofynnodd am gyfarfod penodol i drafod mwy ar hynny. Roedd Canolfan Gydweithredol Cymru yn bwriadu cynnal digwyddiad ar dechnoleg ac roedd niferoedd da wedi cofrestru ar ei gyfer. Byddai'r digwyddiad yn cael ei gynnal bellach yn yr hydref, o bosibl ar ffurf rhith-ddigwyddiad. Roedd Canolfan Gydweithredol Cymru wedi paratoi ei drywydd ei hun ar gyfer adferiad, gan amlinellu'r fframwaith ar gyfer symud y sector yn ei flaen dros y 10 mlynedd nesaf, mewn partneriaeth â rhanddeiliaid. Roedd y trywydd hwnnw'n tynnu sylw at ba mor bwysig oedd ymateb y Llywodraeth i COVID-19, yr hyn a ddysgwyd oddi wrth yr ymateb hwnnw, a'r ymwneud â swyddogion LlC. Roedd dealltwriaeth swyddogion LlC o anghenion y sector wedi bod yn dda iawn ac nid oedd hynny wedi'i weld mewn rhannau eraill o'r DU.

Roedd y trywydd yn rhannu safbwyntiau am ddyfodol cymorth busnes i'r sector mentrau cymdeithasol ac ar y galw am gymorth arbenigol i'r sector hwnnw.

Dywedodd **SL** fod y sector yn cefnogi egwyddorion y Cynllun Gweithredu ar yr Economi a'r angen i fusnesau ymddwyn mewn ffyrdd cyfrifol, e.e. Gwaith Teg.

Tynnodd **PW** sylw at yr angen i greu modelau economaidd cryfach, megis cadwyni cyflenwi lleol a chaffael yn lleol, e.e. bwyd. Gofynnodd PW sut y gellid defnyddio'r hyn a ddysgwyd fel ei fod yn ymwreiddio, yn lle bod yn ffordd o ymateb ar adeg o argyfwng yn unig.

*Adferiad Gwyrdd/Cyfiawn*

Roedd **JMcQ** yn croesawu ymrwymiad LlC i adferiad gwyrdd a chyfiawn. Roedd sawl arolwg wedi dangos mai dyna'r hyn y mae pobl am ei weld. Roedd nifer o heriau'n ein hwynebu wrth droi egwyddorion yn weithredu. Un o'r heriau hynny oedd sut i ddiffinio swyddi gwyrdd ac i ddarparu tystiolaeth bod swyddi'n rhai gwyrdd. Dywedodd JMcQ fod gan Gyswllt Amgylchedd Cymru bapur am swyddi gwyrdd a chynigiodd weithio gyda LlC i ehangu'r diffiniad o swyddi gwyrdd er mwyn adlewyrchu gwir nifer y swyddi gwyrdd.

Cynigiodd JMcQ weithio gyda LlC i fagu gwell dealltwriaeth o'r effaith luosi sy'n gysylltiedig â swyddi gwyrdd. Dywedodd JMcQ fod perygl y gallai adferiad gwyrdd a chyfiawn beidio â chael digon o sylw ym mhortffolios y Gweinidogion ac roedd yn cydnabod yr angen i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, yr argyfwng iechyd a'r argyfwng economaidd. Roedd Cyswllt Amgylchedd Cymru yn edrych ar opsiynau cyllido cynaliadwy.

Dywedodd **CSLB** y gallai effeithiau'r argyfwng hinsawdd fod yn aruthrol fwy nag effeithiau COVID-19. Roedd CSLB yn falch o gael gwybod yn ddiweddar fod LlC yn asesu'r effaith y gallai diffyg gweithredu ei chael yn ei phrosesau gwneud penderfyniadau. Gofynnodd CSLB pa ddulliau a oedd yn cael eu defnyddio i gysylltu'r sianeli sy'n ymgysylltu ynglŷn â'r adferiad gwyrdd.

Dywedodd **RC** y dylid, wrth lunio unrhyw gynlluniau creu swyddi, roi blaenoriaeth i swyddi ar gyfer pobl a phobl ifanc dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Dylid creu'r

swyddi yn y trydydd sector a dylid mapio asedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.

Awgrymodd RC y byddai cynllun ‘technoleg ddigidol ar gyfer gwaith’, tebyg i’r cynllun ‘beicio i’r gwaith’, lle y byddai cymhorthdal ar gael i bobl fedru manteisio ar dechnoleg, yn helpu pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig i gael gwaith.

Cynigiodd **CB** rannu adroddiad a lansiwyd yn ddiweddar gan Trawsnewid Cymru i amlinellu’u gweledigaeth ar gyfer trafnidiaeth gynaliadwy a 7 cam i drawsnewid trafnidiaeth. Dywedodd CB fod cyfarfod hynod gadarnhaol wedi’i gynnal gyda swyddogion LlC yn gynharach y diwrnod hwnnw.

Dywedodd **HLL** fod eu rhwydwaith yn rhan o nifer o bartneriaethau lleol a strategol. Ymhlith y themâu a oedd yn codi mewn trafodaethau oedd y grym sy’n deillio o fod yn ‘lleol’.

Dywedodd y **Dirprwy Weinidog** fod y syniad o gymhorthdal ar gyfer technoleg ddigidol yn ddiddorol ond y byddai angen ei gynllunio’n ofalus gan gadw’r defnyddwyr mewn cof. Gofynnodd  am wybodaeth am y cynllun arfaethedig. Ymrwymodd y Dirprwy Weinidog i gynnal trafodaeth am Rôl Technoleg Ddigidol yn y 3ydd Sector yn y cyfarfod nesaf.

Dywedodd y Dirprwy Weinidog fod angen sicrhau cydbwysedd o ran swyddi gwyrdd. Gwyddai fod llawer o weithwyr yn wynebu’r bygythiad o gael eu diswyddo, felly byddai’n anodd cadw’r ddysgl yn wastad, a byddai LlC o dan bwysau i achub cynifer o swyddi ag y bo modd.

Roedd gan Gronfa Her yr Economi Sylfaenol brosiect yn Sir Gaerfyrddin ar gaffael bwyd yn lleol. Roedd caffael cyfarpar diogelu personol a bwyd yn flaenoriaeth. Roedd gwaith wrthi’n cael ei wneud ar ystyried caffael bwyd ar draws yr holl awdurdodau lleol.

Gwahoddodd y Dirprwy Weinidog JMcQ i rannu rhagor o wybodaeth gyda LlC.

Roedd gan y Prif Weinidog ddiddordeb mawr yn yr agenda Gwaith Teg ac roedd wedi creu cyfarwyddiaeth Gwaith Teg.

Daeth y Dirprwy Weinidog â’r cyfarfod i ben drwy ddweud bod LlC yn ymwybodol iawn o’r angen i gefnogi’r sector mentrau cymdeithasol.

**Diwedd.**